



Gweinyddiaeth  
Cyfiawnder

# Ymgynghoriad ar sefydlu Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol

Medi 2018

Cm 9701



Gweinyddiaeth  
Cyfiawnder

## **Ymgynghoriad ar sefydlu Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol**

Cyflwynwyd i'r Senedd  
gan yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder  
drwy Orchymyn Ei Mawrhydi

Medi 2018



© **Hawlfraint y Goron 2018**

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle nodwyd fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i [nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3](http://nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3)

Lle rydym wedi nodi bod unrhyw wybodaeth o dan hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan y deiliaid hawlfraint cysylltiedig.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn [www.gov.uk/government/publications](http://www.gov.uk/government/publications)

Dylid anfon unrhyw ymholiadau am y cyhoeddiad hwn atom ni yn:  
[IPAconsultation@justice.gsi.gov.uk](mailto:IPAconsultation@justice.gsi.gov.uk)

ISBN 978-1-5286-0797-1

CCS0918471890 09/18

Argraffwyd ar bapur y mae o leiaf 75% o'i gynnwys yn ffeibrau a ailgylchwyd

Argraffwyd yn y DU gan APS Group ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi

## **Am yr ymgynghoriad hwn**

**At:**

Yr holl randdeiliaid cysylltiedig, yn enwedig pobl sydd wedi cael profedigaeth o ganlyniad i drychinebau cyhoeddus a'r rheini sydd wedi'u goroesi; y sefydliadau sy'n cynorthwyo pobl mewn profedigaeth; sefydliadau a gwasanaethau sy'n ymwneud ag ymchwilio i drychinebau cyhoeddus a digwyddiadau mawr sy'n gysylltiedig â marwolaethau; ac unrhyw un arall y mae'r materion yn y ddogfen ymgynghori hon yn effeithio arno neu o ddiddordeb iddo.

**Cyfnod ymgynghori:**

O 10/09/2018 i 03/12/2018

**Ymholiadau (yn cynnwys ceisiadau am y papur mewn fformat gwahanol) i:**

Coroners, Burials, Cremation and Inquiries Policy Team  
Area 3.52  
Ministry of Justice  
102 Petty France  
Llundain SW1H 9AJ  
Ffôn: 020 3334 3555  
E-bost: [IPAconsultation@justice.gsi.gov.uk](mailto:IPAconsultation@justice.gsi.gov.uk)

**Sut i ymateb:**

Anfonwch eich ymateb erbyn 3 Rhagfyr 2018 i:  
Coroners, Burials, Cremation and Inquiries Policy Team  
Area 3.52  
Ministry of Justice  
102 Petty France  
Llundain SW1H 9AJ  
Ffôn: 020 3334 3555  
E-bost: [IPAconsultation@justice.gsi.gov.uk](mailto:IPAconsultation@justice.gsi.gov.uk)

**Ffyrdd ychwanegol i roi'ch barn:**

Cynhelir cyfres o gyfarfodydd i randdeiliaid hefyd. I gael rhagor o wybodaeth, defnyddiwch y manylion cyswllt ar gyfer "Ymholiadau" uchod.

**Papur ymateb:**

Mae ymateb i'r ymgynghoriad hwn i'w gyhoeddi erbyn 03/03/2019 yn: <https://consult.justice.gov.uk/>

## Cynnwys

<b>Rhagair</b>	<b>3</b>
<b>Crynodeb gweithredol</b>	<b>5</b>
<b>Cyflwyniad</b>	<b>7</b>
<b>Y cynigion</b>	<b>9</b>
Pennod 1 – Yr angen am Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol	9
Pennod 2 – Pryd fydd cymorth ar gael gan yr Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol	11
Pennod 3 – Pwy a ddylai gael cymorth gan yr Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol	14
Pennod 4 – Pa gymorth y dylai'r Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol ei ddarparu	16
Pennod 5 – Sut y dylai'r Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol weithredu	21
Pennod 6. Cydraddoldebau	22
<b>Manylion cyswllt/Sut i ymateb</b>	<b>23</b>
<b>Atodiad A – Ymchwiliadau a Chyrff Ymchwilio</b>	<b>26</b>
<b>Atodiad B – Rhestr o Ymgynghoreion</b>	<b>32</b>
<b>Atodiad C – Holiadur</b>	<b>34</b>
<b>Atodiad D – Amdanoch chi</b>	<b>36</b>

---



## Rhagair



Mae trychinebau mawr sy'n arwain at golli nifer sylweddol o fywydau yn brin yn y wlad hon diolch byth. Pan fyddant yn digwydd, mae'n bwysig bod y rheini sy'n profi'r effaith fwyaf yn gwybod beth sy'n mynd ymlaen ac yn gallu cymryd rhan yn llawn yn y cwestau ac ymchwiliadau sy'n dilyn.

Mae'r cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn cyflawni'r ymrwymiad a wnaethom yn Araith y Frenhines y flwyddyn ddiwethaf i gyflwyno Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol i gynorthwyo'r rheini sydd mewn profedigaeth ar ôl trychineb a gofalu bod eu llais yn cael ei glywed yn y broses i gadarnhau'r ffeithiau am yr hyn a ddigwyddodd a sicrhau bod cyfiawnder yn cael ei weinyddu.

Bydd sefydlu Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol yn ategu'r diwygiadau pwysig sydd wedi'u gwneud dros y blynyddoedd i gynorthwyo a grymuso dioddefwyr a'u teuluoedd.

Mae Deddf Ymchwiliadau 2005 wedi creu fframwaith cyfreithiol cadarn ar gyfer sefydlu ymchwiliadau i faterion sydd o bwys i'r cyhoedd. Mae'n cydnabod rôl yr unigolion hynny sydd wedi profi effeithiau, yn cynnwys drwy wneud darpariaethau i roi statws arbennig iddynt ac mewn llawer o achosion i ariannu eu cynrychiolaeth gyfreithiol.

Yn 2013, cyflwynodd y llywodraeth nifer o ddiwygiadau mewn perthynas â chrwneriaid i roi rhagor o hawliau i bobl sydd mewn profedigaeth ym mhroses y cwêst, yn cynnwys yr hawl i weld y rhan fwyaf o'r dogfennau ac i gael eu hysbysu'n barhaus am yr hyn sy'n digwydd.

Er hynny, yn sgîl digwyddiadau trist fel trychineb Hillsborough ym 1989 ac, yn fwy diweddar, y tân ofnadwy yn Nhŵr Grenfell, fe welwyd yr heriau eithriadol sy'n wynebu'r teuluoedd a brofodd eu heffeithiau a'r rheini sy'n gyfrifol am ymchwilio iddynt.

Mae'n glir bod pryderon mawr o hyd ynghylch y graddau y mae lleisiau'r rheini sydd mewn profedigaeth yn cael eu clywed, a'r graddau y maent yn cael eu helpu i ddeall a chymryd rhan yn llawn yn y broses ymchwilio. Bydd Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol yn helpu i fynd i'r afael â'r pryderon hyn.

Rwyf yn benderfynol na fyddwn byth eto'n gweld teuluoedd yn brwydro, fel y gwelsom yn y blynyddoedd maith ar ôl trychineb Hillsborough, yn erbyn yr union system a oedd i fod i roi atebion – ac, yn y pen draw, cyfiawnder.

Byddwn yn sefydlu'r Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol drwy Ddeddf Seneddol. Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am farn ynghylch y rôl, yn cynnwys y cymorth y dylai'r Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol ei ddarparu, i bwy y dylid ei ddarparu, a'r trychinebau a ddylai fod yn gymwys i gael cymorth gan yr Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol.

Mae'r Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol yn rhan o'n Strategaeth Dioddefwyr ehangach i sicrhau bod pob dioddefwr yn cael help a'i fod yn gallu cael cymorth priodol i gymryd rhan yn y broses o wireddu cyfiawnder.

## Ymgynghoriad ar sefydlu Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol

Rwyf yn mawr obeithio y bydd pobl a sefydliadau o bob math yn anfon eu barn atom. Hoffem glywed yn enwedig gan y rheini sydd wedi profi trychinebau a'u sgîl-ffeithiau, yn cynnwys y rheini a ymchwiliodd i'r hyn a ddigwyddodd a'i achosion.

Byddwn yn ystyried yr ymatebion a gawn i'r ymgynghoriad hwn yn ofalus ac yn cyhoeddi ein casgliadau y flwyddyn nesaf.

A handwritten signature in black ink, reading "Edward Argar". The signature is written in a cursive style and is positioned above a horizontal line that extends to the right.

**Edward Argar AS**

Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Gyfiawnder



## Crynodeb gweithredol

### Cwmpas yr ymgynghoriad hwn

Yn Araith y Frenhines ar 21 Mehefin 2017 cadarnhawyd bwriad y Llywodraeth, a amlinellwyd ym maniffesto'r Blaid Geidwadol, i gyflwyno Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol a fydd yn gweithredu ar ran teuluoedd mewn profedigaeth ar ôl trychineb cyhoeddus ac yn eu cynorthwyo mewn cwestau cyhoeddus.

Rydym am sicrhau na fydd y gofid ychwanegol a brofwyd weithiau gan deuluoedd mewn profedigaeth o ganlyniad uniongyrchol i ymchwiliad cymhleth ac, ar brydau, ymchwiliad annigonol yn dilyn trychineb yn cael ei brofi gan eraill yn y dyfodol.

Byddwn yn sefydlu'r Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol drwy ddeddfwriaeth sylfaenol ond, cyn gwneud hynny, bydd angen i ni fod yn glir ynghylch manylion y rôl. Bydd yr ymgynghoriad hwn yn ein helpu i gael yr atebion iawn am yr hyn a ddylai fod. Mae yna drefniadau hefyd dan Ddeddf Paratoadau Sifil 2004 a fydd yn cael eu sbarduno yn dilyn 'argyfwng' fel y diffinnir yn y Ddeddf.

Mae nifer o brosesau ymchwilio sefydledig yn digwydd yn dilyn marwolaethau mewn trychinebau. Mae Atodiad A i'r ddogfen hon yn amlinellu'r cyd-destun presennol o ran ymchwiliadau ac yn egluro'r mathau o ymchwiliad a all ddigwydd.

Rydym yn rhagweld y bydd yr Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol yn cael ei sefydlu yn y cyd-destun hwn, ac y bydd yn ymgysylltu'n adeiladol ac effeithiol heb gymryd drosodd, dyblygu na rhwystro'r gwaith a wneir gan eraill.

Mae nifer o'r prosesau ymchwilio presennol eisoes yn darparu cymorth i rai mewn profedigaeth ac mae llawer o arferion da ar waith. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y bydd adegau pan fydd maint a chymhlethdod trychinebau yn gallu bod yn her wrth ddarparu'r cymorth sydd ei angen ar rai mewn profedigaeth. Cafwyd achlysuron lle mae pobl mewn profedigaeth wedi teimlo eu bod wedi'u gwthio i'r ymylon a heb allu ymgysylltu'n effeithiol. Weithiau hefyd – er enghraifft, y cwestau gwreiddiol a'r ymchwiliad cyhoeddus i drychineb Hillsborough – nid yw ymchwiliadau wedi darganfod beth yn union a ddigwyddodd ac roedd yn rhaid cynnal ymchwiliadau pellach. Y bwriad wrth gyflwyno Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol yw sicrhau na fydd hyn yn digwydd eto. Mae Pennod 1 o'r ddogfen hon yn edrych ar yr angen am y rôl.

Mae Pennod 2 yn trafod pa bryd y bydd cymorth yr Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol ar gael a phwy fydd yn gymwys i'w gael. Rydym yn cynnig y bydd yr Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol yn cymryd rhan pan fydd maint a chymhlethdod digwyddiadau yn gorymestyn gallu'r corff ymchwilio neu lle mae amgylchiadau'r marwolaethau yn anodd iawn ymdrin â hwy. Mae trychineb Tŵr Grenfell yn enghraifft amlwg.

Mewn digwyddiad o'r fath, mae'n debygol y bydd pobl yn profi effeithiau gwahanol o lawer math – yn amrywio o'r rheini sydd wedi cael profedigaeth neu anaf difrifol i'r rheini sydd wedi bod yn dyst i'r digwyddiad ond heb gael anaf parhaol. Rydym yn glir y bydd yr Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol yn cynorthwyo'r rheini sydd mewn profedigaeth ond ym Mhennod 3 rydym yn gofyn am farn ynghylch a ddylai eraill gael cymorth hefyd. Mae Pennod 4 yn edrych ar y cymorth y dylai'r Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol ei ddarparu.

## Ymgynghoriad ar sefydlu Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol

Rydym yn rhagweld y bydd yr Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol yn gweithredu'n bennaf i ddod â'r rheini sy'n gyfrifol am ymchwilio i'r trychineb a'r rheini a gafodd brofedigaeth oherwydd y trychineb hwnnw at ei gilydd. Bydd yn helpu i baratoi pobl a gafodd brofedigaeth, a phobl eraill o bosib, i ryngweithio â'r cyrff ymchwilio, gan eu helpu i ddeall y prosesau a sicrhau bod eu barn yn cael ei chlywed. Bydd yn hyrwyddo perthnasoedd effeithiol rhwng y cyrff hynny a'r rhai mewn profedigaeth drwy ddarparu cyngor a herio'r corff ymchwilio ar y ffordd orau i ymgysylltu â hwy. Gallant hefyd, os yw'n ofynnol ac yn briodol, i chwarae rhan mewn cysylltu â'r cyrff sy'n gyfrifol am ymchwiliadau eraill a all fod yn gysylltiedig â'r trychineb, fel y Sefydliad Safonau Annibynnol y Wasg (Independent Press Standards Organisation).

Bydd yr Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol mewn lle delfrydol i gyfrannu i unrhyw wersi y bydd angen eu dysgu er mwyn gwella'r dull o ymchwilio i drychinebau ac, yn benodol, i bennu'r ffordd orau i gynnwys teuluoedd sydd wedi cael profedigaeth.

Er bod yr ymgynghoriad hwn yn ymwneud yn bennaf â rôl yr Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol yn yr ymchwiliad sy'n dilyn yn syth ar ôl trychineb, mae hefyd yn ystyried rôl ychwanegol bosibl lle mae pryderon dilys o hyd am y canlyniad gan deuluoedd mewn profedigaeth wedi i'r ymchwiliad ddod i ben sy'n cael eu rhannu gan bobl eraill – fel a ddigwyddodd ar ôl trychineb Hillsborough.

Nid yw'r math o drychineb lle mae'r Llywodraeth yn credu y bydd angen i'r Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol gymryd rhan yn digwydd yn aml ond fe fydd angen i'r Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol fod ar gael yn gyflym, ym mha le bynnag y bydd y trychineb yn digwydd. Mae hyn yn codi cwestiynau am y ffordd y bydd y rôl yn gweithio sy'n cael eu trafod ym Mhennod 5. Yn ogystal â cheisio barn am y model gweithredu, rydym yn awyddus i ddeall pa sgiliau a phrofiad y bydd ar Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol eu hangen.

Mae Pennod 6 yn dod â'r ymgynghoriad i ben drwy ofyn am farn am gydymffurfiaeth ein cynigion â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.

## Cyflwyniad

1. Mae trychinebau lle collir nifer mawr o fywydau yn brin yn y wlad hon diolch byth. Fodd bynnag, pan fyddant yn digwydd mae'n bwysig bod y rheini y maent yn effeithio arnynt yn cael cyfle i ymwneud â phob agwedd ar y prosesau ymchwilio sy'n ceisio darganfod beth ddigwyddodd a pham.
2. Mae mwy nag un ffordd i ymchwilio i'r hyn a ddigwyddodd. Bydd llawer yn dibynnu ar yr amgylchiadau ac mae'n bosibl y bydd angen mwy nag un math o ymchwiliad. Mae Atodiad Ayn amlinellu rhai o'r prif weithdrefnau sydd ar gael ar hyn o bryd i ymchwilio i drychinebau lle ceir marwolaethau. Mae'r rhain yn cynnwys proses y crwner ac ymchwiliadau cyhoeddus. Mae hefyd yn nodi rhai cyrff ymchwilio eraill a all gymryd rhan, yn cynnwys y rheini sy'n edrych ar ddamweiniau ar y môr, ar reilffyrdd ac mewn perthynas â hedfan neu ddigwyddiadau mewn lleoliadau gofal neu yn y gwaith.
3. Eifen allweddol yn llwyddiant yr Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol fydd ei wybodaeth am y cyrff ymchwilio a'r prosesau sydd wedi'u disgrifio yn Atodiad A a'i allu i ymgysylltu â hwy. Pwysicach byth fydd ei allu i feithrin perthynas gefnogol ac ymddiriedus â'r teuluoedd sydd mewn profedigaeth.

## Dyletswyddau presennol i gynorthwyo rhai mewn profedigaeth

4. Mae sefydliadau ac unigolion sydd eisoes yn darparu cymorth i rai mewn profedigaeth, yn cynnwys achosion lle mae profedigaeth yn ganlyniad i drychineb. Mae cymorth cyfreithiol ar gael ar gyfer cyngor a chymorth cyfreithiol cynnar (help cyfreithiol) sy'n ymwneud â chwestau a gall cymorth ariannol fod ar gael hefyd i dalu am gynrychiolaeth drwy'r cynllun Ariannu Achosion Eithriadol – mae pob penderfyniad ar ariannu o'r fath yn amodol ar brofion ar foddion ac ar rinweddau'r achos.
5. Nid yw'r cynllun cymorth cyfreithiol yn berthnasol i ymchwiliadau ond mae pŵer gan Gadeirydd ymchwiliad a sefydlwyd o dan Ddeddf Ymchwiliadau 2005 i drefnu i arian fod ar gael i 'gyfranogwyr craidd' i sicrhau eu bod yn cael y cymorth cyfreithiol sydd ei angen arnynt.
6. Mae hefyd yn bosibl y bydd asiantaethau ymchwilio yn aseinio eu swyddog cymorth eu hunain neu'n gallu cael gafael ar wasanaethau cymorth. Er enghraifft, mae'r heddlu yn aseinio Swyddog Cyswllt Teuluoedd (FLO) i deuluoedd yn eu holl achosion dynladdiad. Roedd Swyddogion Cyswllt Teuluoedd wedi cyflawni rôl bwysig ar adeg gynnar yn sgîl tân Tŵr Grenfell pan oedd yr Heddlu Metropolitaidd yn ystyried y posibilrwydd o ddwyn cyhuddiadau troseddol.

## Cymorth pellach i'r rheini mewn profedigaeth

7. Mae'n bosibl y bydd graddfa a chymhlethdod trychineb yn creu heriau penodol i'r broses ymchwilio: un effaith bosibl fydd ymgysylltu gwael â'r rheini sydd mewn profedigaeth.
8. Bydd yr Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol yn sicrhau bod y rhai mewn profedigaeth yn cael eu paratoi a'u hysbysu'n well a bydd yn helpu'r corff ymchwilio i ddeall ac ymateb

i'w hanghenion. Wrth wneud hynny, ein bwriad yw na fydd yr Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol yn dyblygu rolau presennol nac yn rhwystro'r rheini sy'n cyflawni'r rolau hynny.

9. Mae'r penodau sy'n dilyn yn egluro syniadau'r Llywodraeth ar gyfer y rôl newydd. Ar rai materion mae'r Llywodraeth eisoes wedi penderfynu ar gynnig clir, ond ar rai eraill nid yw wedi penderfynu eto pa opsiwn i'w ffafrio.
10. Er hwylustod yn y ddogfen hon, oni nodwyd yn wahanol, mae'r termau 'ymchwiliad', 'proses ymchwilio' neu 'gorff ymchwilio' yn cyfeirio at bob math o fecanwaith neu system ffurfiol ar gyfer ymchwilio a dod i gasgliadau ynghylch marwolaethau sydd wedi digwydd o ganlyniad i drychineb. Mae hyn yn cynnwys cwestau ac ymchwiliadau gan grwner, ymchwiliadau cyhoeddus, a'r ymchwiliadau a gyflawnir gan asiantaethau fel yr heddlu neu unrhyw un o'r cyrff eraill sydd wedi'u rhestru yn Atodiad A.
11. Mae fersiwn Saesneg o'r papur ymgynghori ar gael yn <https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/establishing-an-independent-public-advocate>
12. Mae Asesiad o'r Effaith sy'n edrych ar effeithiau ariannol ein cynigion wedi'i gynnwys gyda'r ddogfen hon yn <https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/establishing-an-independent-public-advocate> Byddwn yn falch o gael sylwadau am ei gynnwys.
13. Mae Atodiad B yn rhestru'r sefydliadau hynny y mae copïau o'r papur ymgynghori yn cael eu hanfon iddynt. Nid oes bwriad i'r rhestr hon fod yn hollgynhwysol a bydd croeso i ymatebion gan unrhyw un sy'n ymddiddori yn y materion dan sylw neu sydd am fynegi barn amdanynt.

## Y cynigion

### Pennod 1 – Yr angen am Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol

14. Mae'r diwygiadau mewn perthynas â chrwneriaid yn 2013 a chyflwyno fframwaithstatudol ar gyfer ymchwiliadau cyhoeddus wedi gwella'r ddarpariaeth i gwrdd ag anghenion pobl mewn profedigaeth. Er hynny, mae'r ymchwiliadau sy'n digwydd yn dilyn trychineb yn gallu bod yn gymhleth dros ben, yn cynnwys nifer o asiantaethau ac yn dilyn rheolau a gweithdrefnau a fydd yn anghyfarwydd i'r rhan fwyaf o bobl. Gall hyn beri ofn a dryswch i deuluoedd a'u llethu.
15. Rydym wedi dod i'r casgliad bod angen person penodedig ac annibynnol sy'n gallu canolbwyntio ar anghenion y rhai mewn profedigaeth. Bydd yr Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol yn wybodus am y gwahanol brosesau ymchwilio (cwestau etc) ond yn annibynnol arnynt. Bydd yn ymwneud yn uniongyrchol â'r ymchwiliad er mwyn cynorthwyo a hwyluso'r gallu i glywed eu barn.
16. Rydym yn rhagweld mai rôl yr Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol fydd darparu cymorth yn union ar ôl trychineb – drwy sicrhau bod teuluoedd yn cael eu cynnwys a'u hysbysu'n briodol o'r dechrau – ac yn ôl yr angen wedyn drwy gydol cyfnod yr ymchwiliad. Wrth weithio ar y cynigion hyn rydym wedi datblygu rhai egwyddorion ar gyfer y rôl. Rydym yn credu, yn y trychinebau hynny lle penderfynir y bydd yr Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol yn cymryd rhan (trafodir y ffordd briodol i wneud hyn ym Mhenod 2 isod) y dylai'r Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol gynorthwyo teuluoedd yn y ffyrdd canlynol:
  - *drwy ddeall a hyrwyddo eu buddiannau. Ni fydd dyletswydd tuag at eraill yn rhan o'r rôl;*
  - *drwy ddarparu cymorth i sicrhau bod teuluoedd yn gallu deall y pwrpas a'r trafodion mewn unrhyw ymchwiliad neu gwest a sefydlir i benderfynu achos y trychineb a'r marwolaethau a gafwyd o ganlyniad iddo;*
  - *drwy eu helpu i gymryd rhan yn llawn yn yr ymchwiliad (lle mae hawl i wneud hynny);*
  - *drwy ennill a chadw ymddiriedaeth y teuluoedd; darparu cymorth i'r teuluoedd ac aelodau o deuluoedd sydd am ei gael;*
  - *drwy feithrin perthynas â'r crwner, cadeirydd ymchwiliad ac ati ac ymgysylltu â hwy er budd i'r teuluoedd;*
  - *drwy beidio â dyblygu, disodli na llesteirio swyddogaethau presennol asiantaethau neu unigolion eraill sy'n rhan o'r broses ymchwilio;*
  - *drwy ddarparu cymorth o'r un ansawdd ble bynnag yng Nghymru neu Loegr roedd y trychineb wedi digwydd.*
17. Nid ydym yn rhagweld y bydd rôl yr Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol yn cynnwys darparu cyngor a chynrychiolaeth gyfreithiol i'r rheini sydd mewn profedigaeth oherwydd trychineb; nid yw'n 'eiriolwr' yn yr ystyr hwnnw. Wrth gwrs, mae'n bosibl y bydd y rhai mewn profedigaeth am gael cyngor cyfreithiol annibynnol neu wedi'i gael yn barod, fel yr eglurwyd yn y Cyflwyniad. Nid ydym yn credu bod swyddogaeth yr

Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol o gynorthwyo grŵp o bobl a all fod yn amrywiol, a'i farn yn cwmpasu safbwyntiau gwahanol iawn o bosibl, yn gydnaws â chyflawni dyletswyddau eiriolwr cyfreithiol personol.

18. Wrth ddewis yr enw Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol, felly, rydym yn cydnabod bod rhywfaint o bosibilrwydd o ddryswch ynghylch defnyddio'r gair "eiriolwr". Nid ydym yn credu bod hyn yn broblem, fodd bynnag, oherwydd er nad yw'n eiriolwr yn yr ystyr cyfreithiol, fe fydd yr Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol yn sicr o fod yn eiriolwr dros y teuluoedd ac rydym yn hyderus y bydd y cyhoedd yn dod i ddeall y rôl yn gliriach ar ôl ei sefydlu. Rydym hefyd yn credu mai annoeth fyddai troi oddi wrth yr enw a ddefnyddiwyd yn Araith y Frenhines sydd eisoes yn gyfarwydd i randdeiliaid.
19. Hyd yma, rydym wedi trafod y rôl i'r Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol a fydd yn dechrau'n syth ar ôl trychineb. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd achlysuron lle na fydd ymchwiliad cychwynnol, neu gyfres o ymchwiliadau, yn mynd at wraidd yr hyn a ddigwyddodd a lle mae ymdeimlad o anghyfiawnder ac anniddigrwydd cyhoeddus yn parhau.
20. Yn yr amgylchiadau hyn, lle mae'r prosesau ymchwilio cyntaf wedi dod i ben ond bod pryder o hyd nad yw'r holl ffeithiau wedi'u datguddio – rai blynyddoedd ar ôl y digwyddiad o bosibl – rydym yn awgrymu y gellir cael rôl bellach i'r Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol. Rydym yn edrych ar hyn ym Mhennod 4.

**C1. Ydych chi'n cytuno â ni am yr angen am Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol?  
Rhowch eich rhesymau.**

## **Pennod 2 – Pryd fydd cymorth ar gael gan yr Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol**

21. Mae'r bennod hon yn ymdrin â'r amgylchiadau lle dylai'r Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol fod ar gael i'r rheini sydd wedi cael eu heffeithio gan y trychineb.
22. Rydym yn canolbwyntio ar y digwyddiadau eithriadol hynny sy'n cyffwrdd â chalonnau pobl, sy'n effeithio ar nifer mawr o unigolion a fydd ag angen cymorth, ac sy'n arwain yn anorfod at gynnal ymchwiliad a fydd yn denu sylw mawr.
23. Nid ydym yn credu y bydd pob digwyddiad sy'n gysylltiedig â marwolaethau yn cyfiawnhau darparu cymorth gan yr Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol. Mae pob digwyddiad sy'n arwain at gollu bywyd yn fater difrifol, wrth gwrs, ond rydym yn cynnig mai dim ond mewn set benodol o amgylchiadau y bydd yr Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol yn cymryd rhan lle teimlir bod y galw am ymgysylltu'n effeithiol â theuluoedd yn debygol o fod yn her neilltuol.
24. Credwn y bydd yr angen am gymorth gan yr Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol yn codi pan fydd nifer yr ymadawedig yn golygu y bydd y rhai sydd mewn profedigaeth yn ei chael yn anodd ymgysylltu'n effeithiol â'r rheini sy'n gyfrifol am ymchwilio i'r trychineb. Bydd hyn yn dibynnu ar yr adnoddau sydd ar gael i'r corff ymchwilio a'i drefniadau gweithredu. Er enghraifft, pan gynhelir cwestau yr un pryd, fel sy'n digwydd yn aml lle cafwyd marwolaethau o ganlyniad i un digwyddiad, gall un crwner fod yn gyfrifol am ymgysylltu â degau o bobl mewn profedigaeth, a channoedd mewn achosion eithriadol iawn. Mae crwneriaid yn cael eu cynorthwyo gan dîm bach o swyddogion crwner. Byddai'r Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol yn gallu helpu'r swyddogion hyn i reoli eu hymgysylltu â'r rhai mewn profedigaeth, gan helpu teuluoedd i ddeall rôl y crwner a phrosesau crwneriaid.
25. Yn yr amgylchiadau hyn bydd yr Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol yn cynorthwyo'r rheini sydd mewn profedigaeth yn eu perthynas â'r corff (neu gyrff) ymchwilio. Bydd annibyniaeth yr Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol yn ei alluogi i feithrin dealltwriaeth ddiduedd ymysg y rhai mewn profedigaeth o rôl a swyddogaethau'r unigolyn neu asiantaeth sy'n cynnal yr ymchwiliad, a hefyd i rannu gwybodaeth â'r rheini sy'n cynnal yr ymchwiliad am bryderon teuluoedd mewn profedigaeth.
26. Rydym yn rhagweld y bydd yr Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol yn cael cyfarfod cynnar cychwynnol â'r rhai mewn profedigaeth ac yn nodi'r cwestiynau, ystyriaethau a phryderon y maent am eu codi am y ffordd o ymchwilio i farwolaethau eu hanwyliaid ac i'r trychineb ei hun. Bydd yr Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol yn helpu i baratoi'r rhai mewn profedigaeth i godi'r materion hynny a bydd yn ymwneud yn uniongyrchol â'r ymchwiliad i helpu i sicrhau dealltwriaeth o anghenion a safbwyntiau'r rhai mewn profedigaeth.
27. Mae'r angen am yr Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol yn codi hefyd o nifer ac amrywiaeth yr asiantaethau a phobl eraill sydd â buddiant mewn ymchwiliad. Gall hyn gyfrannu'n sylweddol at gymhlethdod yr ymchwiliad gan y bydd y rhai mewn profedigaeth am ddeall rôl pob asiantaeth neu berson. Enghreifftiau o'r rhain yw asiantaethau a phobl a oedd yn gyfrifol am ddiogelwch y cyhoedd lle digwyddodd y trychineb neu am ddarparu neu reoleiddio gwasanaeth neu ddarpariaeth arall a oedd yn gysylltiedig â'r trychineb, neu a oedd wedi chwarae rhan yn yr ymateb i'r trychineb. Bydd yr Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol yn gweithio gyda'r rhai mewn profedigaeth i'w helpu i ddeall pwy yw'r partïon cysylltiedig hyn a'u rôl ym mhroses yr ymchwiliad.

28. Fodd bynnag, fe geir digwyddiadau lle na fydd yr ymchwiliad sy'n dilyn yn creu unrhyw heriau eithriadol a lle mae'r cymorth sydd ar gael yn bresennol i rai mewn profedigaeth yn ddigon i gwrdd â'u hangen i gael eu hysbysu, eu cynnwys a'u clywed. Rydym yn meddwl am ddamweiniau traffig ffyrdd lle mae nifer o farwolaethau, er enghraifft.
29. Ar y llaw arall, gellir cael digwyddiadau lle mae nifer y marwolaethau'n gymharol isel ond bod natur y digwyddiad yn golygu y bydd yr ymchwiliad sy'n dilyn yn cynnwys casgliad cymhleth o asiantaethau ac unigolion, ac yn tynnu sylw'r cyhoedd.
30. Rydym yn awgrymu nad oes rhaid i'r trychineb fod yn un digwyddiad, fel trychineb Hillsborough, i'w ystyried yn gymwys, nac yn wir yn gyfres o ddigwyddiadau cysylltiedig fel y pedwar ymosodiad bomioar system drafnidiaeth Llundain ar 7 Gorffennaf 2005. Yn hytrach, credwn y gallai'r Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol gymryd rhan hefyd lle cafwyd cyfres o ddigwyddiadau cysylltiedig dros gyfnod hirach, fel y nifer mawr o farwolaethau yn Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG Canolbarth Swydd Stafford neu yn Ysbyty Coffa Rhyfel Gosport.
31. Tra bod yr ymgynghoriad yn canolbwyntio ar ddigwyddiadau sy'n cynnwys marwolaethau, nid ydym eisiau eithrio digwyddiadau lle nad oes marwolaethau heb geisio barn am y mater. Mae'n bosibl bydd ddigwyddiad, er enghraifft, ffrwydiad mewn gosodiad cemegol, a allai fod angen cymorth gan yr Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol, os oedd yn arwain at anafiadau difrifol ar raddfa fawr, trawma emosiynol neu golled ariannol sylweddol.
32. O ran penderfynu a yw digwyddiad penodol neu gyfres o ddigwyddiadau cysylltiedig yn drychineb sy'n galw am gymorth yr Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol, rydym yn cydnabod ei bod yn anodd darparu set benodedig o baramedrau. Nid oes diffiniad statudol o "trychineb" i'n helpu, ond mae yna ddiffiniad o "argyfwng" a set o drefniadau y bydd rhaid i'r Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol eu dilyn.
33. Mae Deddf Paratodau Sifil 2004 yn cynnwys diffiniad statudol o "argyfwng", sy'n cwmpasu pethau fel llifogydd, tanau ac chlefydau heintus. Gall digwyddiadau y gellir eu hystyried yn drychinebau gael eu cynnwys yn hyn, er enghraifft, fel digwyddiad Tŵr Grenfell. Mae'r Ddeddf yn pwysleisio bod y haen leol yn arwain ar baratoi ar gyfer ac ymateb i'r argyfyngau statudol hyn. Golygai'r 'haen leol' yr ymatebwyr cyntaf fel yr awdurdodau lleol, a'r gwasanaeth tân, yr heddlu a'r gwasanaeth ambiwlans. Mae gan yr haen leol reolaeth strategol ac yn goruchwyllo dros yr argyfwng, ac unrhyw weithgaredd adfer dilynol. Yn ddibynnol ar natur yr argyfwng, bydd yna adran arweiniol dynodedig o'r llywodraeth sy'n gyfrifol am roi cyngor i'r llywodraeth a rhoi cymorth, os bydd angen, i'r ardal leol.
34. Mae arnom angen sicrhau bod rôl yr Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol yn gallu cydfynd â'r trefniadau presennol ar gyfer ymateb i argyfyngau sifil yn hytrach na chroesi ar eu traws.
35. Ein cynnig, yng ngholeuni'r uchod, yw mai'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder fydd yn penderfynu a yw trychineb yn gymwys, ar ôl ymgynghori â'r Gweinidog perthnasol yn yr adran o'r llywodraeth sy'n arwain ar y gwaith ac ar ôl ystyried cyngor gan yr Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol, p'un a yw digwyddiad neu ddigwyddiadau yn golygu bod angen i'r Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol chwarae rhan.



36. Ar ôl penderfynu hyn, bydd gwasanaethau'r Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol ar gael i'r rhai mewn profedigaeth ac, o bosib, i rai eraill sydd wedi'u heffeithio. Bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn atebol i'r Senedd am y penderfyniad hwn.
37. Gan ystyried natru brys argyfyngau, byddwn yn rhagweld penderfyniad buan, ond gan fod yna bosibilrwydd bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn dymuno ailystyried penderfyniad gwreiddiol i beidio a defnyddio'r Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol wrth i dystiolaeth newydd godi.
38. Rydym yn rhestru nifer o ffactorau isod y byddai'r Ysgrifennydd Gwladol yn gallu eu hystyried wrth benderfynu a yw digwyddiad neu gyfres o ddigwyddiadau yn gymwys i'w hystyried yn drychineb a ddylai alw am gynnwys yr Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol. Y rhain yw:
  - nifer y bobl a gafodd brofedigaeth neu anaf o ganlyniad i'r trychineb, yn cynnwys nifer yr achosion posibl o afiechydon angheuol o ganlyniad iddo.
  - nifer, amrywiaeth a math yr asiantaethau neu bobl eraill a fydd â rhan neu fuddiant yn yr ymchwiliad sy'n dilyn – a'r cymhlethdod o ganlyniad i hynny
  - y budd i'r cyhoedd yn gyffredinol o ddeall achosion y trychineb, er enghraifft, a oes perygl i drychineb tebyg ddigwydd mewn lle arall mewn amgylchiadau cyffelyb
  - a yw ymateb y cyhoedd yn union ar ôl y trychineb, yn cynnwys ymateb y rhai mewn profedigaeth ac eraill sy'n gysylltiedig â'r trychineb, yn awgrymu bod angen cael cymorth gan yr Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol.

**C2. Sut y dylid penderfynu a yw digwyddiad yn drychineb lle dylai'r Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol fod ar gael?**

**C3. A ydych yn rhagweld unrhyw broblemau o ran y Llywodraeth yn ychwanegu'r Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol at dirlun lle mae'r Ddeddf Paratodau Sifil yn cynnig darpariaeth statudol ar gyfer ymateb i argyfwng? Ac os felly bydd ydyn nhw?**

**C4. A ddylai'r Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol ond chwarae rhan pan fydd marwolaethau? Esboniwch eich ateb.**

### **Pennod 3 – Pwy a ddylai gael cymorth gan yr Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol**

39. Mae'r bennod hon yn trafod pwy a ddylai fod yn gymwys i gael cymorth gan yr Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol yn dilyn trychineb.
40. Bydd pob trychineb yn effeithio ar lawer math o bobl mewn gwahanol ffyrdd.
41. Gall rhai ddiodef anafiadau difrifol sy'n newid eu bywyd ac efallai'n byrhau eu hoes, gan gynnwys pobl a fydd efallai'n dal afiechyd marwol o ganlyniad i'r trychineb .
42. Gellir cael pobl a oedd yn rhan uniongyrchol o'r trychineb neu wedi bod yn dyst iddo ac a brofodd anafiadau neu drawma y gellir ymadfer ar eu hôl, neu ddim anafiadau o gwbl.
43. Mae'n bosibl y bydd pobl eraill, er nad oeddent yn bresennol, sydd wedi profi sgîl- effeithiau ac anawsterau sylweddol a allai effeithio ar eu gallu i gael tai, cyflogaeth a gwasanaethau sylfaenol.
44. Ymysg y goroeswyr gellir cael pobl sy'n wynebu cyhuddiadau o fod yn gyfrifol am y trychineb mewn rhyw ffordd neu efallai y bydd teulu mewn profedigaeth yn wynebu cyhuddiad o'r fath ynghylch anwyliaid y maent wedi'u colli.
45. Rydym yn cydnabod y bydd buddiant gan bawb sy'n profi effaith sylweddol o drychineb mewn gweld yr ymchwiliad sy'n dilyn yn dod i gasgliad boddhaol. Fodd bynnag, credwn fod angen eglurder ynghylch pwy y bydd yr Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol yn rhoi o'i ynni a'i adnoddau i'w cynorthwyo. Gellir dadlau mai teuluoedd y rheini a fu farw a ddylai fod yn brif destun sylw'r Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol. Ni all y meirw siarad drostynt eu hunain a dylem sicrhau bod cymorth ar gael i'r rheini sy'n teimlo'r golled fwyaf gan rywun sy'n gallu eu helpu i ddeall beth ddigwyddodd.
46. Nid ydym yn bwriadu gwahaniaethu rhwng pobl a fu farw yn ystod y trychineb a'r rheini a fu farw'n ddiweddarach, ond eu bod wedi marw o ganlyniad iddo.
47. Rydym yn cydnabod y bydd nifer o aelodau'r teulu mewn rhai achosion yn dymuno dod i gyfarfodydd a gwrandawiadau ac ymwneud â'r Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol. Fodd bynnag, mae hyn yn codi cwestiwn o ran a ddylai'r Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol weithio o ddydd i ddydd gydag un neu rai neu'r cyfan o'r rheini mewn un teulu. A ddylai'r Llywodraeth ddarparu rhestr mewn deddfwriaeth o'r perthnasoedd sy'n gymwys, efallai, neu gysylltu cymhwysra â statws Person â Buddiant mewn cwest, statws Cyfranogwr Craidd mewn ymchwiliad cyhoeddus dan Ddeddf 2005 neu, mewn mathau eraill o ymchwiliad, y rheini sy'n gymwys i gymryd rhan ym mhroses yr ymchwiliad hwnnw?
48. Er y byddwn yn falch o gael sylwadau am hyn, credwn mai'r dull gorau fydd i'r Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol gael arfer disgrisiwn i benderfynu sut bydd yn ymgysylltu â theuluoedd, gan gynnwys, er enghraifft, sut i ddelio â materion fel ymddieithrio rhwng aelodau teulu.
49. Bydd hefyd o ddiddordeb i ni glywed barn ynghylch a oes pobl eraill, er nad ydynt wedi cael profedigaeth, a ddylai gael cymorth gan yr Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol.

50. Rydym yn meddwl yn benodol am bobl sydd wedi goroesi'r trychineb ond a all gynnig tystiolaeth werthfawr i ymchwiliad ac a fydd yn ei gweld yr un mor bwysig â'r teuluoedd mewn profedigaeth fod yr ymchwiliad yn cael at y gwirionedd.
51. Gellir cael rhai hefyd sy'n cynrychioli rhywun sydd wedi goroesi'r trychineb ond nad yw'n gallu cymryd rhan ym mhroses yr ymchwiliad ei hun oherwydd anaf, oed neu fath arall o analluogrwydd.
52. Bydd llawer o bobl yn teimlo, wrth gwrs, bod y rhai a lwyddodd i ddianc Twr Grenfell ond na gollodd aelod o'u teulu yn y tân, yr un mor haeddiannol o'r math o gymorth bydd yr Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol yn ei gynnig â'r rhai sydd mewn profedigaeth.

**C5. Pwy a ddylai fod yn gymwys i gael cymorth gan yr Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol yn eich barn chi?**

**C6. A ddylai cymhwystera i gael cymorth gael ei benderfynu gan y Llywodraeth, drwy ddeddfu efallai, neu a ddylid gadael i'r Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol benderfynu ar ôl ystyried yr amgylchiadau yn dilyn trychineb penodol?**

**C7. Ydych chi'n meddwl y dylai'r Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol ganolbwyntio'n bennaf ar gynorthwyo teuluoedd mewn profedigaeth, neu a yw hyn yn rhy gyfyng yn eich barn chi?**

#### **Pennod 4 – Pa gymorth y dylai'r Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol ei ddarparu**

53. Fel yr eglurir yn Atodiad A, mae gwahanol ffyrdd i ymchwilio i drychinebau neu eu hadolygu. Nid ydym yn rhagweld y bydd yr Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol yn darparu swyddogaeth ymchwilio ar ben y prosesau hyn. Byddai gwneud hynny'n peri risg o ddrysu'r dyletswyddau a chyfrifoldebau y mae'r prosesau hynny'n eu cyflawni nid yn unig i'r rhai mewn profedigaeth ond hefyd i bawb a fydd yn cymryd rhan yn yr ymchwiliad.

#### ***Cymorth yn union ar ôl trychineb***

54. Fodd bynnag, cyn cynnal ymchwiliad, credwn fod rôl hanfodol i'r Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol yn y dyddiau a'r wythnosau sy'n dilyn trychineb. Bydd hyn yn cynnwys helpu'r rhai mewn profedigaeth i ddeall beth sy'n digwydd o'u cwmpas – beth mae'r heddlu'n ei wneud, proses y crwner mewn perthynas â chyrrff eu hanwyliaid, ac ati – a beth fydd yn digwydd nesaf. Bydd yn cynnwys bod yn glir ynghylch pwy sy'n gyfrifol am beth, a ble mae gwahanol fathau o gymorth ar gael. Bydd y rhai mewn profedigaeth am wybod beth mae pobl eraill yn ei wneud, beth fyddant yn ei wneud a pham, a hefyd sut bydd eu barn yn cael ei chyfleu wrth i benderfyniadau gael eu gwneud ar y ffordd o ymchwilio i'r trychineb. ***Broceru'r berthynas rhwng y rhai mewn profedigaeth a'r ymchwiliad***

55. Ar ôl sefydlu ymchwiliad, bydd angen i'r Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol gynnal perthynas dda, effeithiol ac uniongyrchol â thîm yr ymchwiliad, ac felly hefyd y rhai mewn profedigaeth. Ni ddylai'r cyfathrebu rhwng y rhai mewn profedigaeth a thîm yr ymchwiliad gael ei gyfryngu gan yr Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol ond yn hytrach ei wella a'i hwyluso drwy'r cymorth y bydd yr Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol yn ei ddarparu.

56. Nid yw'r Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol yn 'eiriolwr' yn yr ystyr cyfreithiol, ni fydd yn disodli rôl bresennol cynrychiolwyr cyfreithiol ac ni fydd yn cymryd rhan yn y broses ymchwilio fel y cyfryw. Ni fydd hyn yn atal yr Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol rhag cyfleu barn y rhai mewn profedigaeth lle mae'n briodol gwneud hynny. Un enghraifft bosibl o gyfle i wneud hynny fydd sgysiau neu ohebiaeth â chrwner, cadeirydd ymchwiliad neu berson arall sy'n arwain yr ymchwiliad lle mae problemau a phryderon y rhai mewn profedigaeth yn cael eu rhannu a chyngor yn cael ei gynnig. Rydym yn rhagweld y bydd yr Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol yn fecanwaith 'methu diogel' yn y modd hwn drwy sicrhau bod teuluoedd yn cymryd rhan yn y broses ymchwilio gan ei deall ac ymddiried ynddi.

57. Rydym yn disgwyl y bydd yr holl gyfathrebu o'r fath yn unol â'r rheolau arferol ar weithredu agored a datgelu sy'n berthnasol i'r ymchwiliad hwnnw ac y bydd dyletswydd ar yr Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol i rannu cyfathrebu o'r fath â'r rhai mewn profedigaeth. Rydym yn rhagweld y bydd yr Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol yn cyflawni rôl y 'brocer gonest', drwy allu cynghori a hwyluso cyfathrebu a chyfnwid rhwng y rhai mewn profedigaeth a'r asiantaeth ymchwilio.

58. Yn gynnar yn y broses, bydd angen i'r Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol gwrdd â'r rhai mewn profedigaeth, a bydd yn parhau i gwrdd â nhw i'w helpu gyda'r canlynol:
- cael dealltwriaeth dda o bwrpas a swyddogaeth yr ymchwiliad (neu ymchwiliadau) sydd wedi dechrau neu wedi'u cynnig
  - gwybod pa rôl a fydd ganddyn nhw (y rhai mewn profedigaeth) wrth gynnal yr ymchwiliad; a'r cwestiynau penodol a fydd yn destun i'r ymchwiliad
  - gwybod pa hawliau neu wasanaethau cysylltiedig sydd ar gael iddynt mewn perthynas â'r ymchwiliad; bydd hyn yn cynnwys yr hawl i gael cyngor a chymorth cyfreithiol proffesiynol
  - gwybod i bwy a sut y dylid gofyn cwestiynau am y trychineb yr ymchwiliad. Gall hyn gynnwys cymorth i lunio'r cwestiynau hynny.
  - gwybod pa opsiynau sydd ar gael i ddelio ag unrhyw faterion sydd y tu allan i gwmpas yr ymchwiliad
  - gwybod pa opsiynau sydd ar gael i ymdrin â materion sydd heb eu datrys wedi i'r ymchwiliad ddod i ben.
59. Wrth sefydlu'r Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol, ni fyddwn yn rhoi unrhyw bwerau dros yr ymchwiliad ei hun, nac yn gosod unrhyw ddyletswyddau newydd ar ymchwiliadau. Yn hytrach, byddwn yn cadw cydbwysedd presennol y cyfrifoldebau sydd gan ymchwiliadau tuag at yr holl bartïon cysylltiedig.
60. Rydym yn cydnabod y bydd adegau pan na fydd dymuniadau'r rhai mewn profedigaeth a'r rhai a anafwyd yn cael eu bodloni bob amser gan benderfyniadau'r corff ymchwilio. Pan fydd rhai'n anfodlon ar benderfyniadau neu weithredoedd y corff ymchwilio, neu ar y gwasanaethau y mae'n eu darparu, credwn y dylent ddefnyddio'r gweithdrefnau presennol ar gyfer adolygu a chwynion yn hytrach na bod pŵer yn cael ei roi i'r Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol i ymyrryd. Fodd bynnag, rydym yn disgwyl y bydd statws yr Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol a'r berthynas waith dda â'r ymchwiliad yn helpu i sicrhau bod barn y rhai mewn profedigaeth wedi'i deall yn llwyr a bod materion yn cael eu datrys yn gynnar, heb fod angen eu huwchgysfeirio i weithdrefnau cwyno neu apelio.
61. Rhag ofn fod unrhyw ddryswch yn parhau i fod, dylwn nodi'r glir na fydd y math o gymorth rydym yn rhagweld y bydd yr Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol yn ei ddarparu yn cynnwys cymorth ehangach fel cymorth iechyd meddwl neu gymorth ariannol. Pennir yr angen ar gyfer cymorth o'r fath ac, os bydd angen, y gwasanaeth a ddarperir, ar wahân.

**C8. Pa fathau o gymorth y dylai'r Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol eu darparu cyn ac yn ystod ymchwiliad, gan gofio'r angen i beidio â dyblygu mathau eraill o gymorth, neu lesteirio'r rheini sy'n eu darparu?**

***Diwallu gwahanol anghenion ymysg y rheini a gafodd brofedigaeth***

62. Bydd y rheini a gafodd brofedigaeth o ganlyniad i drychineb am ddeall sut a pham y digwyddodd. Fodd bynnag, gellir cael pryderon a blaenoriaethau ymysg y rhai mewn profedigaeth nad ydynt yn cael eu rhannu gan bawb. Er y bydd trychineb yn dod â phobl at ei gilydd i gydalaru, mae pob person sy'n galaru yn unigolyn o hyd sydd â'i anghenion ei hun.

63. Credwn y dylai cymorth fod ar gael gan yr Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol i bawb sy'n gymwys i gael y cymorth hwnnw ac na ddylai'r Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol weithredu mewn ffordd sy'n gofyn iddo gynrychioli barn y 'mwyafrif' yn unig.

**C9. Sut y dylem sicrhau bod yr Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol yn cynorthwyo pawb a gafodd brofedigaeth, mewn amgylchiadau lle gallant fod â barn sy'n wahanol ac efallai'n groes?**

***Cymorth mewn gwahanol fathau o ymchwiliadau***

64. Rydym wedi egluro yn y Cyflwyniad ein bod yn defnyddio'r term "ymchwiliad" yn ei ystyr cyffredinol yn y ddogfen ymgynghori hon, fel ei fod yn cwmpasu cwestau, ymchwiliadau cyhoeddus a mathau eraill o ymchwiliad. Fodd bynnag, mae angen i ni wirio mai hon yw'r ffordd briodol o weithredu ac na ddylid cyfyngu ar y mathau o ymchwiliad y mae'r Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol yn darparu cymorth ar eu cyfer.
65. Rydym wedi egluro yn Atodiad A fod dyletswydd ar grwneriaid i ymchwilio i'r holl farwolaethau sy'n annaturiol neu'n dreisgar neu lle mae'r achos yn anhysbys. Lle mae'n bosibl bod beiusrwydd troseddol yn y marwolaethau, bydd yr heddlu'n cynnal ymchwiliad a all arwain at erlyn. Mewn rhai amgylchiadau bydd Gweinidogion yn comisiynu ymchwiliad cyhoeddus i'r digwyddiad. Rydym hefyd wedi egluro bod asiantaethau eraill yn ogystal sy'n gyfrifol am ymchwilio i ddigwyddiadau lle mae pobl wedi colli eu bywydau.
66. Ar gyfer pob un o'r asiantaethau hyn, mae proses ymchwilio benodol a fframwaith gweithredu sy'n cynnwys dyletswyddau a chyfrifoldebau penodol tuag at y rheini a gafodd brofedigaeth. Nid pwrpas yr ymgynghoriad hwn yw rhoi ystyriaeth fanwl i gylch gwaith unrhyw un o'r cyrff ymchwilio hyn. Mae eu cyfrifoldebau, yn cynnwys eu dyletswyddau i gynorthwyo, hysbysu ac ymgysylltu â'r rhai mewn profedigaeth, yn wybodaeth sydd wedi'i chyhoeddi.
67. Rydym yn rhagweld mai rôl yr Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol fydd darparu cymorth i'r rhai mewn profedigaeth mewn ymchwiliadau sy'n edrych yn uniongyrchol ar y trychineb a marwolaethau eu hanwyliaid. Rydym yn cydnabod, er hynny, y gellir cael ymchwiliadau eilaidd sy'n digwydd yng nghyd-destun trychineb – er enghraifft, y ffordd roedd awdurdod lleol neu wasanaeth brys wedi ymateb – a gallwn hefyd weld rôl posibl ar gyfer yr Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol yma.

**C10. Ydych chi'n cytuno y dylai'r Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol ymwneud â'r holl fathau o ymchwiliad lle bo angen, neu ydych chi'n credu y dylai ymwneud â chwestau ac ymchwiliadau cyhoeddus yn unig? Rhowch eich rhesymau.**

**C11. A ddylai'r math o gymorth a ddarperir gan yr Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol fod yn wahanol mewn gwahanol fathau o ymchwiliad? Os dylai, rhowch fanylion.**

***Dysgu gwersi ar ôl pob trychineb***

68. Bydd yr Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol mewn lle da i arsylwi'r perthnasoedd gwaith rhwng y rheini sydd mewn profedigaeth a'r corff ymchwilio. Rydym yn disgwyl y bydd yr Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol yn ffurfio barn o bryd i'w gilydd ar yr arferion gorau, ar wersi i'w dysgu neu ar faterion i'w hystyried ymhellach. Fel rhan o'r gwaith hwn, mae'n bosibl y bydd yr Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol am ddefnyddio'r "Siarter ar gyfer teuluoedd a gafodd brofedigaeth o ganlyniad i drasiedi gyhoeddus" sydd wedi'i chynnwys yn adroddiad yr Esgob James Jones ar brofiadau teuluoedd a gollodd anwyliaid yn nhrychineb Stadiwm Hillsborough<sup>1</sup>. Gall fod yn rhesymol ei gwneud yn ofynnol i'r Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol baratoi adroddiad i'w gyhoeddi ar ôl cwblhau ei waith yn cynorthwyo'r rhai mewn profedigaeth mewn ymchwiliad penodol.
69. Pe byddai hyn yn digwydd, gellid disgwyl y byddai'r Llywodraeth yn ymateb i'r adroddiad – a'i bod yn fwyaf tebygol y bydd unrhyw ymateb a geir yn cael ei ddarparu gan yr adran sydd â'r buddiant mwyaf yn y trychineb a oedd yn destun ymchwiliad.
70. Fel arall neu ar ben hynny, gellid rhoi dyletswydd ar yr Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol i baratoi adroddiad, o bryd i'w gilydd, i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder a fyddai'n cynnwys argymhellion i wella'r dull o gynnal ymchwiliadau yn y dyfodol o ran cynnwys pobl mewn profedigaeth.

**C12. Ydych chi'n credu y dylai fod yn ofynnol i'r Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol adrodd ar ei waith? Os ydych, pa bryd ac i bwy y dylai'r Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol gyflwyno ei adroddiad?**

**C13. Beth fyddai pwrpas unrhyw adroddiad o'r fath ac a ddylai'r Llywodraeth fod o dan ddyletswydd i ymateb?**

***Pan fydd cwestiynau am drychineb heb gael eu hateb***

71. Cafwyd achlysuron pan oedd pryderon dilys gan y rheini a gafodd brofedigaeth o ganlyniad i drychineb nad oedd ymchwiliad wedi dod i gasgliadau digonol a'i fod wedi methu â chanfod y gwir. Mae'n ddigon posibl y bydd yr ymchwiliad wedi cael ei gynnal rai blynyddoedd yn ôl.
72. Dan Ddeddf Ymchwiliadau 2005, mae pwerau gan weinidogion llywodraeth y DU a gweinidogion yn y gweinyddiaethau datganoledig i sefydlu ymchwiliadau i faterion o'u dewis. Mae pwerau hefyd gan Weinidogion i sefydlu adolygiadau, yn cynnwys adolygiadau anstatudol a chomisiynau brenhinol.
73. Mae'n debyg mai'r enghraifft fwyaf adnabyddus yw Panel Annibynnol Hillsborough, a sefydlwyd yn 2010. Y cwestiwn yn yr ymgynghoriad hwn yw, lle mae pryder ynghylch casgliadau ymchwiliad, a ddylai'r Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol fod ag unrhyw ran mewn ymchwilio i'r pryder hwnnw gyda theuluoedd ac wedyn penderfynu'r ymateb.

---

<sup>1</sup> "The patronising disposition of unaccountable power: A report to ensure the pain and suffering of the Hillsborough families is not repeated", The Right Reverend Bishop James Jones KBE [https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/655892/6\\_3860\\_HO\\_Hillsborough\\_Report\\_2017\\_FINAL\\_WEB\\_updated.pdf](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/655892/6_3860_HO_Hillsborough_Report_2017_FINAL_WEB_updated.pdf)

74. Rydym yn meddwl bod yna resymau da dros yr Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol yn chwarae rhan mewn rhoi cyngor i Weinidogion ar sut i ymateb i unrhyw bryderon. Yna, gall y Llywodraeth, er enghraifft, benderfynu y byddai panel fel yr achos Hillborough fod yn briodol.

**C14. Ydych chi'n credu y dylai'r Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol fod â rhan mewn gweithio gyda'r rhai mewn profedigaeth lle mae pryderon wedi'u codi ynghylch y canlyniad i ymchwiliad yn y gorffennol? Os ydych, pa fath o rôl y dylai honno fod?**

**C15. A ydych yn meddwl y dylai'r Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol chwarae rhan mewn rhoi cyngor i weinidogion pa fo pryder parhaus am ganlyniad ymchwiliad?**



## **Pennod 5 – Sut y dylai'r Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol weithredu**

75. Rydym yn troi nawr at y cwestiwn o sut byddai'r Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol yn gweithredu, gan gynnwys sut byddant yn delio â dau neu ragor o drychinebau cymwys sy'n digwydd o fewn cyfnod cymharol fyr, gan roi digon o sylw i bob un nid yn unig yn y cyfnod yn syth ar ei ôl ond drwy gydol y prosesau ymchwilio a geir wedyn, a fyddai'n cymryd misoedd a blynyddoedd o bosibl i ddod i ben.
76. Byddem yn falch o gael sylwadau gennych am ffyrdd i ddelio â'r mater hwn. Un ateb posibl yw cael nid un Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol ond cnewyllyn bach o Eiriolwyr Cyhoeddus Annibynnol, ac un ohonynt ar ddyletswydd ac ar gael bob amser ar sail rota.
77. Fel arall, yn hytrach na chael cnewyllyn o eiriolwyr cydradd, gellid cael un Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol ar gyfer Cymru a Lloegr a fyddai wedyn yn recriwtio dirprwyon. Mae'n bosibl y bydd opsiynau ymarferol eraill.
78. Os mai'r cynnig terfynol fydd creu Corff Hyd Braich newydd dan lywodraeth ganolog, bydd llywodraeth yn cymhwyso'r broses cymeradwyo arferol ar gyfer endid o'r fath.
79. Rydym wedi ystyried ym Mhennod 4 sut all yr Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol gyfrannu at ddysgu parhaus ynghylch sut i gynnal ymchwiliadau. Yn yr yn modd, byddwn yn anelu at sicrhau bod yna welliant parhaus o ran y gefnogaeth a ddarperir gan yr Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol a mynd i'r afael ag unrhyw bryderon ynghylch y rôl hon.

**C16. Sut y dylai'r Llywodraeth sicrhau bod modd darparu rôl yr Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol bob amser pryd bynnag a lle bynnag y mae ei hangen?**

**C17. Beth fyddai'r manteision ac anfanteision o gael un Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol gyda dirprwyon?**

**C18. Beth fyddai'r manteision ac anfanteision o gael cnewyllyn o Eiriolwyr Cyhoeddus Annibynnol?**

**C19. Ar ôl ystyried popeth rydych wedi'i ddarllen yn y ddogfen ymgynghori hon, pa sgiliau, profiad neu gymwysterau penodol sydd eu hangen ar yr Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol yn eich barn chi?**

## **Pennod 6. Cydraddoldebau**

80. Yn unol â'n dyletswyddau dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010,<sup>2</sup> rydym wedi ystyried effeithiau tebygol y cynigion hyn ar unigolion sydd â nodweddion gwarchoddedig.
81. Credwn na fydd creu'r Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol yn arwain at unrhyw wahaniaethu uniongyrchol neu anuniongyrchol, ac na fydd yn creu perygl o erledigaeth neu aflonyddu.
82. Bydd pawb a gafodd brofedigaeth o ganlyniad i drychineb cymwys yn cael cyfle i gysylltu â'r Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol. Mae'n bosibl hefyd, ar ôl ystyried yr ymatebion i gwestiynau 3, 4 a 5, y bydd pobl sydd heb gael profedigaeth ond sydd wedi goroesi trychineb hefyd yn cael cyfle i wneud hynny. Mae'n bosibl y bydd nifer anghymesur o'r rheini a gaiff gymorth gan yr Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol yn bobl a gafodd anabledd o ganlyniad i'r trychineb ei hun.

**C20. Beth yn eich barn chi fydd yr effeithiau y cynigion sydd yn y papur ymgynghori hwn ar bobl â nodweddion gwarchoddedig?**

**C21. Ydych chi'n credu bod yr effeithiau hyn yn dderbyniol?**

**Mae rhestr o'r holl gwestiynau yn Atodiad C.**

**Mae ffurflen i'w llenwi yn Atodiad D i roi gwybodaeth amdanoch chi.**

**Mae Asesiad o'r Effaith wedi'i gyhoeddi ochr yn ochr â'r ymgynghoriad hwn yn <https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/establishing-an-independent-public-advocate>**

Mae'r egwyddorion sydd i'w mabwysiadu gan adrannau Llywodraeth a chyrrff cyhoeddus eraill ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth ddatblygu polisi a deddfwriaeth wedi'u hamlinellu yn yr egwyddorion ymgynghori.

<https://www.gov.uk/government/publications/consultation-principles-guidance>

---

### <sup>2</sup> **Dyletswyddau cydraddoldeb**

Mae Adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ("y Ddeddf") yn ei gwneud yn ofynnol bod Gweinidogion a'r Adran, wrth arfer eu swyddogaethau, yn rhoi sylw dyledus i'r anghenion canlynol:

- Dileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw fath arall o ymddygiad sydd wedi'i wahardd gan y Ddeddf Cydraddoldeb;
- Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal rhwng gwahanol grwpiau (y rheini sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a'r rheini nad ydynt);
- Meithrin cysylltiadau da rhwng gwahanol grwpiau (y rheini sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a'r rheini nad ydynt).

Mae angen ystyried y galw am roi 'sylw dyledus' ar sail y naw nodwedd warchoddedig o dan y Ddeddf – sef hil, rhyw, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd a chredo, oed, priodas a phartneriaeth sifil, aibennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth.

## Manylion cyswllt/Sut i ymateb

Anfonwch eich ymateb erbyn 3 Rhagfyr i:

**Coroners, Inquiries Policy Team**

**Area 3.52**

**Y Weinyddiaeth Cyfiawnder**

**102 Petty France**

**Llundain SW1H 9AJ**

**Ffôn: 020 3334 3555**

**E-bost: [IPAconsultation@justice.gsi.gov.uk](mailto:IPAconsultation@justice.gsi.gov.uk)**

## Cwynion neu sylwadau

Os oes gennych unrhyw gwynion neu sylwadau am y broses ymgynghori, dylech gysylltu â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn y cyfeiriad uchod.

## Copiâu ychwanegol

Mae copiâu papur ychwanegol o'r ymgynghoriad hwn ar gael o'r cyfeiriad hwn ac mae hefyd ar gael ar-lein yn <https://consult.justice.gov.uk/>.

Gellir gofyn am fersiynau o'r cyhoeddiad hwn mewn fformatau eraill yn:

**[IPAconsultation@justice.gsi.gov.uk](mailto:IPAconsultation@justice.gsi.gov.uk)**.

## Cyhoeddi ymateb

Cyhoeddir papur a fydd yn crynhoi'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn ym mis Mawrth 2019 mis. Bydd y papur ymateb ar gael ar-lein yn <https://consult.justice.gov.uk/>.

## Grwpiau cynrychiadol

Gofynnir i grwpiau cynrychiadol roi crynodeb o'r bobl a'r sefydliadau y maent yn eu cynrychioli wrth ymateb.

## Cyfrinachedd

Gellir cyhoeddi gwybodaeth a ddarperir mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn, yn cynnwys gwybodaeth bersonol, neu ei datgelu yn unol â'r cyfundrefnau hawl i weld gwybodaeth (y prif gyfundrefnau yw'r rheini yn Neddf Rhyddid Gwybodaeth (FOIA) 2000, Deddf Diogelu Data (DPA) 2018, Rheoliadau Cyffredinol Diogelu Data (GDPR) a'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004).

Os ydych yn dymuno i'r wybodaeth a ddarparwch gael ei thrin yn gyfrinachol, mae'n bwysig bod yn ymwybodol bod Cod Ymarfer Statudol dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 y mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio ag ef ac sy'n ymdrin, ymysg pethau eraill, â rhwymedigaethau cyfrinachedd. Yng ngoleuni hwn, byddai o gymorth pe gallech egluro i ni pam rydych yn ystyried bod y wybodaeth rydych wedi'i darparu yn gyfrinachol. Os cawn gais i ddatgelu'r wybodaeth, byddwn yn rhoi pob ystyriaeth i'ch eglurhad, ond ni allwn roi sicrwydd y bydd modd cadw cyfrinachedd ym mhob amgylchiad.

## Ymgynghoriad ar sefydlu Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol

Ni fydd ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhrychir gan eich system TG yn cael ei ystyried yn rhwymol ar y Weinyddiaeth ar ei ben ei hun.

Bydd y Weinyddiaeth yn prosesu'ch data personol yn unol â Deddf Diogelu Data 1998 ac, yn y rhan fwyaf o amgylchiadau, bydd hyn yn golygu na fydd eich data personol yn cael eu datgelu i drydydd partion.



## Atodiad A – Ymchwiliadau a Chyrff Ymchwilio

**Mae disgrifiad isod o rai o'r gweithdrefnau sydd ar gael ar hyn o bryd ar gyfer ymchwilio i drychinebau lle cafwyd marwolaethau.**

### Ymchwiliadau gan crwner a cwestau

1. Mae crwner yn swyddog barnwrol arbenigol y mae'n ofynnol o dan y gyfraith iddo ymchwilio i rai mathau o farwolaethau – fel marwolaethau treisgar neu annaturiol neu farwolaethau heb achos hysbys – yn ardal yr awdurdod neu awdurdodau lleol y mae'n gyfrifol amdani. Ariennir gwasanaethau crwneriaid gan awdurdodau lleol, er bod modd darparu cyllid gan lywodraeth ganolog mewn rhai amgylchiadau, er enghraifft, y cwestau ar farwolaethau 30 o Brydeinwyr a lofruddiwyd yn Tousse, Tiwnisia, yn 2015.
2. Gwaith y crwner yw cael yr atebion i'r cwestiynau canlynol:
  - pwy a fu farw; a
  - sut, pa bryd ac ym mhle y bu farw.
3. Mae cwest yn wrandawriad llys a gynhelir yn gyhoeddus gan y crwner i ddarganfod y ffeithiau am farwolaeth benodol. Mae'n bosibl y bydd nifer o ffeithiau wedi'u darganfod yn fuan ar ôl y farwolaeth ond, pan gynhelir cwest, bydd y crwner yn gallu cael rhagor o wybodaeth o ymchwiliadau ganddo ef ei hun ac eraill. Y nod yw na fydd y broses yn un wrthwynebol. Yn y cwest bydd y crwner yn clywed tystiolaeth gan dystion, arbenigwyr ac eraill sy'n ymwneud â'r farwolaeth. Bydd teulu'r ymadawedig yn cael cyfle i ofyn eu cwestiynau eu hunain i'r rheini sy'n rhoi tystiolaeth drwy broses sy'n cael ei chynnal gan y crwner i'w galluogi i gymryd rhan, heb fod angen cynrychiolaeth gyfreithiol fel arfer.
4. Mae cwest yn wahanol i fathau eraill o wrandawriad llys am nad oes erlynwyr nac amddiffynwyr na 'phartïon'. Yn lle hynny mae 'personau â buddiant' – term sy'n cynnwys rhai mewn profedigaeth ac sydd hefyd yn gallu cwmpasu pobl a anafwyd yn y digwyddiad a achosodd y farwolaeth neu farwolaethau.
5. Lle mae crwner yn ymchwilio i nifer o farwolaethau yn yr un digwyddiad bydd yn debygol o gynnal y cwestau gyda'i gilydd mewn un gwrandawriad mawr. Dyma a ddigwyddodd yn achos yr ail gwestau i farwolaethau'r rheini a gollodd eu bywydau yn nhrychineb Stadiwm Hillsborough yn Ebrill 1989 a bydd hyn yn digwydd yn achos y cwestau presennol i farwolaethau'r rheini a gollodd eu bywyd o ganlyniad i'r bomio mewn tafarndai yn Birmingham ym mis Tachwedd 1974. Mewn achosion sy'n gymhleth neu'n denu llawer o sylw, gellir penodi barnwr sydd mewn gwasanaeth neu wedi ymddeol i gyflawni rôl y crwner. Dyma a ddigwyddodd, er enghraifft, yn yr ail gwestau i'r marwolaethau yn Stadiwm Hillsborough a ddaeth i ben yn 2016.
6. Dan y gyfraith, ni all cwest ddosrannu bai ond mae'r dystiolaeth a ddadlennir mewn cwêst, yn ôl yr amgylchiadau, yn gallu arwain at erlyniad troseddol neu achos sifil. Fel y nodwyd uchod, ei bwrpas yw penderfynu pwy oedd yr ymadawedig a sut, pa bryd ac ym mhle y bu farw. Os yw'r crwner o'r farn bod gwersi i'w dysgu o'r cwêst i helpu i atal marwolaethau yn y dyfodol, bydd yn ofynnol iddo gyflwyno adroddiad i unigolyn

neu sefydliad sydd â phŵer i gymryd camau priodol. Bydd dyletswydd ar y sawl sy'n derbyn adroddiad o'r fath i ymateb, gan gadarnhau'r camau y mae'n eu cymryd.

7. Mae'n debygol y bydd ymchwiliad gan grwner yn cael ei atal dros dro tra bydd ymchwiliadau eraill yn digwydd, fel ymchwiliadau gan yr heddlu, erlyniadau troseddol neu ymchwiliad cyhoeddus. Ar ôl cwblhau'r rhain, bydd y crwner yn penderfynu a fydd yn aildechrau ei ymchwiliad. Mae'r uwch grwner dros Orllewin Llundain Fewnol wedi agor ac atal y cwestau i'r marwolaethau yn Nhŵr Grenfell tra bydd yr ymchwiliad o dan gadeiryddiaeth Syr Martin Moore-Bick yn gwneud ei waith a thra bydd yr heddlu'n parhau â'i ymchwiliad.
8. Os cafwyd ymchwiliad cyhoeddus, y mater i'r crwner fydd penderfynu a yw wedi gadael unrhyw gwestiynau heb eu hateb y mae'n ddyletswydd i'r crwner roi sylw iddynt. Er enghraifft, gall ymchwiliad edrych yn fanwl ar achosion trychineb, ond ni all gynnig atebion ynghylch amgylchiadau pob marwolaeth – mater i'r crwner fyddai hynny.
9. Fodd bynnag, lle cafwyd erlyniad sydd i bob pwrpas wedi ateb y cwestiynau a fyddai'n cael eu hystyried fel arfer mewn cwest, yn egluro marwolaeth pob un o'r ymadawedig, gall y crwner adael i'r cwest gael ei atal am gyfnod amhenodol.
10. Mae Deddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009 wedi diwygio'r ffordd o gynnal cwestau ac ymchwiliadau crwneriaid, yn cynnwys y rheini sy'n dilyn trychineb. Mae'r diwygiadau, a weithredwyd yn 2013, yn rhoi pobl mewn profedigaeth ar ganol y broses. Er enghraifft, gall pobl mewn profedigaeth ddisgwyl cael eu trin gyda thosturi a pharch ac y bydd eu hanghenion yn ystyriaeth hanfodol yn yr ymchwiliad a'r cwest. Er enghraifft, mae ganddynt hawl bellach i ofyn am y rhan fwyaf o ddogfennau, a gallant ddisgwyl i swyddfa'r crwner eu hysbysu'n rheolaidd am ddatblygiadau ac egluro pob cam yn y broses. Mae gwaith wedi dechrau i wneud cwestau'n llai gwrthwynebol, yn dilyn cyhoeddi adroddiad y Fonesig Elish Angiolini ar farwolaethau yn y ddalfa ac adroddiad yr Esgob James Jones ar brofiadau teuluoedd a gollodd anwyliad yn nhrychineb stadiwm Hillsborough.
11. Mae llyfryn y Weinyddiaeth Gyfiawnder '*Guide to Coroner Services*' yn rhoi esboniad clir a syml o'r hyn y gall pobl mewn profedigaeth ei ddisgwyl gan y crwner a'i staff, a beth i'w wneud os na fydd hynny'n digwydd. Mae ar gael drwy swyddfeydd crwneriaid ac yn [www.gov.uk/government/publications/guide-to-coroner-services-and-coroner-investigations-a-short-guide](http://www.gov.uk/government/publications/guide-to-coroner-services-and-coroner-investigations-a-short-guide).
12. Mae rhan i'w chwarae gan grwneriaid mewn perthynas ag ymchwilio i farwolaethau a ddigwyddodd yng Nghymru neu Loegr. Mae ganddynt ran i'w chwarae hefyd mewn perthynas â marwolaethau mewn gwledydd tramor lle dychwelwyd y corff i Gymru neu Loegr a lle byddai'r farwolaeth wedi arwain at ymchwiliad gan grwner pe byddai wedi digwydd yma.

### Ymchwiliadau cyhoeddus

13. Mae ymchwiliad cyhoeddus yn ymchwiliad i fater sydd o bwys i'r cyhoedd a gynhelir gan berson, sydd yn aml yn farnwr mewn gwasanaeth neu wedi ymddeol, a benodir gan y Llywodraeth ond sy'n gweithredu'n annibynnol ar y Llywodraeth fel Cadeirydd yr Ymchwiliad. Y Llywodraeth fydd yn pennu cylch gorchwyl yr ymchwiliad ond bydd yn ymgynghori fel arfer â'r unigolion a sefydliadau sy'n gysylltiedig. Mae ymchwiliad

cyhoeddus yn gallu cynnwys panel o bobl annibynnol a fydd yn cynnal yr ymchwiliad ochr yn ochr â Chadeirydd yr Ymchwiliad.

14. Yn wahanol i ymchwiliad gan grwner, a gynhelir i ymchwilio i farwolaeth benodol, gellir cynnal ymchwiliad cyhoeddus mewn unrhyw amgylchiadau lle mae'r Llywodraeth yn penderfynu bod budd y cyhoedd yn galw am hynny. Fel arfer bydd cwmpas ymchwiliadau cyhoeddus yn ehangach na chwestau ac yn aml yn cymryd mwy o amser i'w cwblhau. Ariennir ymchwiliadau cyhoeddus gan yr adran lywodraeth sy'n gyfrifol am y maes polisi sy'n gysylltiedig â'r ymchwiliad, er enghraifft, yr Adran Drafnidiaeth yn achos trychineb ar reilffordd. Gellir rhannu'r cyfrifoldeb am ariannu rhwng mwy nag un adran yn ôl yr amgylchiadau.
15. Gall y Llywodraeth sefydlu ymchwiliadau ar nifer o ffurfiau gwahanol, fel Adolygiadau Annibynnol, Comisiynau Brenhinol ac ymchwiliadau anstatudol. Lle mae gweinidogion yn dymuno sefydlu ymchwiliad, byddant yn ystyried gwneud hynny fel arfer o dan Ddeddf Ymchwiliadau 2005, sy'n darparu fframwaith statudol ar gyfer cynnal ymchwiliadau cyhoeddus. Yn yr un modd â chwestau, nid yw ymchwiliadau a sefydlwyd dan Ddeddf 2005 yn gallu penderfynu atebolrwydd sifil neu droseddol. Hefyd yn yr un modd â chwest, nid oes partïon fel y cyfryw ond, yn lle hynny, gall cadeirydd yr ymchwiliad roi statws 'cyfranogwr craidd' i'r rheini sydd â buddiant yn y materion sy'n cael eu hystyried. Fel arfer bydd y rheini sydd mewn profedigaeth a'r rheini a anafwyd yn gyfranogwyr craidd mewn ymchwiliad cyhoeddus.
16. Mewn ymchwiliadau cyhoeddus a sefydlwyd dan Ddeddf Ymchwiliadau 2005 – fel ymchwiliad Tŵr Grenfell – mae cadeirydd yr ymchwiliad dan rwymedigaeth statudol i weithredu'n deg wrth wneud unrhyw benderfyniad o ran gweithdrefn yr ymchwiliad neu'r ffordd o'i gynnal. Bydd cyfranogwyr craidd yn cael gweld dogfennau yn rhan o broses yr ymchwiliad. Mae pwerau gan gadeirydd yr ymchwiliad i weld a chael yr holl ddogfennau sy'n berthnasol i'r ymchwiliad. Gellir cael achlysuron, yn enwedig lle mae ystyriaethau o ran diogelwch gwladol, lle na fydd rhai dogfennau'n cael eu datgelu i gyfranogwyr craidd. Darperir cyfarwyddyd gan Swyddfa'r Cabinet i'r rheini sy'n rhedeg ymchwiliadau – cadeiryddion ymchwiliadau, timau ac adrannau llywodraeth sy'n noddï – i egluro'r holl fanylion.
17. Lle mae ymchwiliad wedi'i sefydlu dan Ddeddf Ymchwiliadau 2005 a bod cylch gorchwyl yr ymchwiliad yn dangos ei fod yn debygol o ymchwilio i achos marwolaethau'r rheini sy'n gysylltiedig, ymysg pethau eraill, bydd y crwner ym mhob achos, fel yr eglurwyd uchod, yn atal ei ymchwiliad ei hun ac yn penderfynu wedi i'r ymchwiliad cyhoeddus ddod i ben a oes angen aildechrau ei ymchwiliad ei hun.
18. Ar derfyn ymchwiliad cyhoeddus cyflwynir adroddiad ffurfiol fel arfer i'r gweinidog llywodraeth sydd wedi'i noddï ynghyd â set o argymhellion sy'n codi o ganfyddiadau'r ymchwiliad. Bydd y llywodraeth yn cyhoeddi'r adroddiad yn ogystal â'i hymateb i'r adroddiad.

### **Ymchwiliadau eraill**

19. Mae nifer o asiantaethau eraill sy'n gyfrifol mewn amgylchiadau penodol am ymchwilio i ddigwyddiadau a oedd wedi arwain at golli bywyd.
20. Bydd yr heddlu yn ymchwilio i ddigwyddiadau lle mae'n bosibl bod trosedd wedi'i gyflawni a bydd Gwasanaeth Eryl yn erlyn yn erlyn mewn achosion priodol.



21. Mae asiantaethau arbenigol sy'n gyfrifol am ymchwilio i doriadau ar gyfraith lechyd a Diogelwch, rhai eraill sy'n ymchwilio i ddigwyddiadau yn yr awyr ac ar rwydweithiau rheilffyrdd ac eraill sy'n ymchwilio i ddigwyddiadau mewn lleoliadau iechyd a gofal. Byddai unrhyw un o'r rhain yn gallu chwarae rhan mewn ymchwilio i drychineb cyhoeddus er y bydd eu hymchwiliadau'n cynnwys pwerau a swyddogaethau gwahanol.
22. Bydd y canghennau ymchwilio i ddamweiniau yn yr awyr (AAIB), ar reilffyrdd (RAIB) ac ar y môr (MAIB) yn ymchwilio i ddamwain i benderfynu, ymysg pethau eraill, beth oedd ei hachos ac yn gwneud argymhellion i wella diogelwch. Fodd bynnag, ni fyddant yn dosrannu bai nac atebolrwydd nac yn gorfodi argymhellion a wneir o ganlyniad i'r ymchwiliadau hyn. Un enghraifft o ymchwiliad diweddar gan y Gangen Ymchwilio i Ddamweiniau yn yr Awyr (AAIB) yw'r ymchwiliad a'r adroddiad a'i dilynodd ar drychineb sioe awyrennau Shoreham yn Awst 2015.
23. Mae'r Comisiwn Ansawdd Gofal (CQC) yn monitro, yn arolygu ac yn rheoleiddio gwasanaethau gofal i sicrhau eu bod yn cyrraedd safonau gofynnol o ran ansawdd a diogelwch, ac mae'n cyhoeddi ei ganfyddiadau. Gall ddal pobl yn atebol am ofal gwael a gall erlyn lle mae pobl wedi cael niwed neu mewn perygl o niwed. Hefyd gall gynnal adolygiadau ac ymchwiliadau arbennig i ofal y GIG lle mae tystiolaeth o broblemau sylweddol. Gall hyn arwain at gamau gorfodi lle nad yw darparwyr yn cyrraedd safonau gofal gofynnol er nad oes pŵer gan CQC i orfodi argymhellion ar faterion ehangach. Un enghraifft o ymchwiliad o'r fath yw'r ymchwiliad yn 2012 i Ymddiriedolaeth GIG Ysbytai Athrofaol Bae Morecambe a oedd wedi ystyried pryderon am yr Ymddiriedolaeth, yn cynnwys ei gwasanaethau mamolaeth ac argyfwng.
24. Mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) yn rheoleiddiwr annibynnol sy'n gweithredu er budd y cyhoedd i leihau nifer y marwolaethau ac anafiadau difrifol sy'n gysylltiedig â gwaith yn y DU. Ochr yn ochr â'i gydreoleiddwyr (e.e. awdurdodau lleol) bydd yn archwilio gweithleoedd i wirio bod risgiau'n cael eu rheoli'n ddiogel a, lle mae rhywbeth wedi mynd o'i le, bydd yn ymchwilio i ddarganfod beth a ddigwyddodd a dysgu gwersi i'w atal rhag digwydd eto. Mae'n dal pobl yn atebol lle cafwyd methiannau, ac yn erlyn mewn achosion lle torrwyd cyfraith iechyd a diogelwch.

Mae'r tabl isod yn amlinellu rolau'r prif gyrff a all fod yn gyfrifol am gynnal ymchwiliad i drychineb, yn cynnwys lle mae nifer mawr o farwolaethau.

SEFYDLIAD	CYLCH GWAITH/DYLETSWYDDAU
Y Gangen Ymchwilio i Ddamweiniau yn yr Awyr <a href="http://www.gov.uk/government/organisations/air-accidents-investigation-branch">www.gov.uk/government/organisations/air-accidents-investigation-branch</a>	Gwella diogelwch hedfan drwy ganfod amgylchiadau ac achosion damweiniau a digwyddiadau difrifol yn yr awyr a hyrwyddo camau i'w hatal rhag digwydd eto (nid yw i ddosrannu bai neu atebolrwydd). Mae'n darparu cymorth ac arbenigedd ar gyfer ymchwiliadau a sefydliadau sy'n ymchwilio i ddamweiniau awyr rhyngwladol.
Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru <a href="http://www.cssiw.org.uk">www.cssiw.org.uk</a>	Mae'n rheoleiddio ac yn arolygu er mwyn gwella gofal oedolion, gofal plant a gwasanaethau cymdeithasol i bobl yng Nghymru.

SEFYDLIAD	CYLCH GWAITH/DYLETSWYDDAU
<p>Comisiwn Ansawdd Gofal <a href="http://www.cqc.org.uk/">www.cqc.org.uk/</a></p>	<p>Mae'n monitro, yn arolygu ac yn rheoleiddio gwasanaethau gofal, fel y rheini yng nghartrefi hen bobl, i sicrhau eu bod yn cyrraedd safonau gofynnol o ran ansawdd a diogelwch ac mae'n cyhoeddi canfyddiadau sy'n cynnwys sgorau perfformiad.</p>
<p>Yr Awdurdod Diogelwch Amddiffyn <a href="http://www.gov.uk/government/organisations/defence-safety-authority">www.gov.uk/government/organisations/defence-safety-authority</a></p>	<p>Sefydliad annibynnol sy'n ymchwilio i ddamweiniau amddiffyn ac yn rheoleiddio diogelwch ym mhob maes amddiffyn yn cynnwys hedfan, niwclear, morol, tir, arfau a ffrwydron.</p>
<p>Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) <a href="http://www.hse.gov.uk">www.hse.gov.uk</a></p>	<p>Sefydliad gwarchod annibynnol ar gyfer iechyd, diogelwch a salwch cysylltiedig â gwaith. Mae'n gweithredu er budd y cyhoedd i leihau nifer y marwolaethau ac anafiadau difrifol cysylltiedig â gwaith yn yr holl weithleoedd ym Mhrydain Fawr. Bydd yr HSE (neu awdurdod gorfodi perthnasol arall, fel awdurdod lleol) yn ymchwilio a, lle bo'n briodol, yn erlyn am dorri cyfraith iechyd a diogelwch.</p>
<p>Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu</p>	<p>Mae'n goruchwilio'r system cwynion heddlu yng Nghymru a Lloegr, gan ymchwilio i'r materion mwyaf difrifol yn cynnwys marwolaethau ar ôl dod i gysylltiad â'r heddlu. Mae'n gosod safonau ar gyfer trafod cwynion gan yr heddlu ac yn dylanwadu ar newidiadau mewn plismona drwy ddysgu gwersi o'i gwaith.</p>
<p>Y Gangen Ymchwilio i Ddamweiniau ar y Môr <a href="http://www.gov.uk/government/organisations/marine-accident-investigation-branch">www.gov.uk/government/organisations/marine-accident-investigation-branch</a></p>	<p>Mae'n cynnal ymchwiliadau i ganfod achosion damweiniau ar y môr, gan hybu ymwybyddiaeth o'r ffordd y mae damweiniau ar y môr yn digwydd ac yn cydweithredu â sefydliadau ymchwilio eraill ar lefel ryngwladol i rannu a hybu arferion da.</p>
<p>Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu <a href="http://www.npcc.police.uk/Home.aspx">www.npcc.police.uk/Home.aspx</a></p>	<p>Mae'n galluogi prif gwnstabiaid annibynnol a'u heddluoedd i gydweithio i wella plismona er mwyn y cyhoedd yn y DU. Mae'n cyd-drefnu gweithrediadau heddlu cenedlaethol, yn llywio gweithrediadau gwrth-derfysgaeth ac yn darparu plismona gwrth-derfysgaeth, yn cyd-drefnu ymateb yr heddlu ar lefel genedlaethol i argyfyngau cenedlaethol ac yn cyd-drefnu'r defnydd o adnoddau ar draws ffiniau heddluoedd ac ar lefel ryngwladol.</p>
<p>Swyddfa dros Reoli Niwclear <a href="http://www.onr.org.uk">www.onr.org.uk</a></p>	<p>Mae'n sicrhau bod trefniadau priodol wedi'u gwneud i ddelio ag argyfwng niwclear. Mae'n gweithredu ar lefelau rhyngwladol, cenedlaethol a rhanbarthol i geisio asesu a dylanwadu ar drefniadau'r DU, drwy ei thîm penodedig ar gyfer Parodrwydd ac Ymateb mewn Argyfwng.</p>

<b>SEFYDLIAD</b>	<b>CYLCH GWAITH/DYLETSWYDDAU</b>
Y Gangen Ymchwilio i Ddamweiniau ar Reilffyrdd <a href="http://www.gov.uk/government/organisations/rail-accident-investigation-branch">www.gov.uk/government/organisations/rail-accident-investigation-branch</a>	Mae'n cynnal ymchwiliadau i ganfod achosion damweiniau ar reilffyrdd, yn gwneud argymhellion i atal damweiniau yn y dyfodol, yn hybu ymwybyddiaeth o'r ffordd y mae damweiniau ar reilffyrdd yn digwydd ac yn cydweithredu â sefydliadau ymchwilio eraill ar lefel genedlaethol a rhyngwladol i rannu a hybu arferion da.

## Atodiad B – Rhestr o Ymgynghoreion

Anfonir copïau o'r papur ymgynghori hwn i:

Arolygiaeth EM dros Wasanaeth Erlyn y Goron  
Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru  
Arolygiaeth Rheilffyrdd EM  
Asiantaeth yr Amgylchedd  
Awdurdod Diogelwch Amddiffyn  
Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch  
Awdurdod Hedfan Sifil  
Coleg Brenhinol y Llawfeddygon, Lloegr  
Coleg Brenhinol y Meddygon  
Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol  
Comisiwn Ansawdd Gofal  
Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu  
Comisiynydd Dioddefwyr  
Comisiynydd Dioddefwyr Llundain  
Cure the NHS – ymgyrch ymchwiliad Canolbarth Swydd Stafford  
Cymdeithas Comisiynwyr Heddlu a Throseddu  
Cymdeithas Crwneriaid Cymru a Lloegr  
Cymdeithas y Cyfreithwyr  
Cymdeithas y Prif Swyddogion Tân  
Cymorth i Ddioddefwyr  
Disaster Action  
Gofal mewn Galar Cruse  
Grŵp Cymorth Teuluoedd Hillsborough  
Gwasanaeth Cymorth Llysoedd Crwneriaid  
Justice4Grenfell  
Justice4the21  
Prif Arolygydd Cwnstabiliaeth EM  
Prif Arolygydd Gwasanaethau Tân EM (Cymru a Lloegr)  
Prif Grwner Cymru a Lloegr  
Prif Gwnstabl, Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu  
Rheolwyr Gwasanaethau Crwneriaid

Survivors Assistance Network

Swyddfa dros Reoli Niwclear

Uwch Grwneriaid, Crwneriaid Ardal a Chrwneriaid Cynorthwyol

Y Coleg Nyrsio Brenhinol

Y Cyngor Meddygol Cyffredinol

Y Gangen Ymchwilio i Ddamweiniau ar Reilffyrdd

Y Gangen Ymchwilio i Ddamweiniau ar y Môr

Y Gangen Ymchwilio i Ddamweiniau yn yr Awyr

Y Prif Arolygydd Niwclear

Yr Arglwydd Brif Ustus

Nid oes bwriad i'r rhestr hon fod yn hollgynhwysol a chroesewir ymatebion gan unrhyw un sydd â buddiant ym materion yr ymgynghoriad neu farn amdanynt.

## Atodiad C – Holiadur

Byddem yn falch o gael ymatebion i'r cwestiynau canlynol sydd wedi'u cynnwys yn y papur ymgynghori hwn.

**C1. Ydych chi'n cytuno â ni am yr angen am Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol? Rhowch eich rhesymau.**

**C2. Sut y dylid penderfynu a yw digwyddiad yn drychineb lle dylai'r Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol fod ar gael?**

**C3. A ydych yn rhagweld unrhyw broblemau o ran y Llywodraeth yn ychwanegu'r Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol at dirlun lle mae'r CCA yn cynnig darpariaeth statudol ar gyfer ymateb i argyfwng? Ac os felly bydd ydyn nhw?**

**C4. A ddylai'r Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol ond chwarae rhan pan fydd marwolaethau? Esboniwch eich ateb.**

**C5. Pwy a ddylai fod yn gymwys i gael cymorth gan yr Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol yn eich barn chi?**

**C6. A ddylai cymhwysra i gael cymorth gael ei benderfynu gan y Llywodraeth, drwy ddeddfu efallai, neu a ddylid gadael i'r Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol benderfynu ar ôl ystyried yr amgylchiadau yn dilyn trychineb penodol?**

**C7. Ydych chi'n cytuno â barn y Llywodraeth y dylai'r Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol ganolbwyntio'n bennaf ar gynorthwyo teuluoedd mewn profedigaeth, neu a yw hyn yn rhy gyfyng yn eich barn chi?**

**C8. Pa fathau o gymorth y dylai'r Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol eu darparu i'r rhai mewn profedigaeth cyn ac yn ystod ymchwiliad, gan gofio'r angen i beidio â dyblygu mathau eraill o gymorth, neu lesteirio'r rheini sy'n eu darparu?**

**C9. Sut y dylem sicrhau bod yr Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol yn cynorthwyo pawb a gafodd brofedigaeth, mewn amgylchiadau lle gallant fod â barn sy'n wahanol ac efallai'n groes?**

**C10. Ydych chi'n cytuno y dylai'r Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol ymwneud â'r holl fathau o ymchwiliad lle bo angen, neu ydych chi'n credu y dylai ymwneud â chwestau ac ymchwiliadau cyhoeddus yn unig? Rhowch eich rhesymau.**

**C11. A ddylai'r math o gymorth a ddarperir gan yr Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol fod yn wahanol mewn gwahanol fathau o ymchwiliad? Os dylai, rhowch fanylion.**

**C12. Ydych chi'n credu y dylai fod yn ofynnol i'r Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol adrodd ar ei waith? Os ydych, pa bryd ac i bwy y dylai'r Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol gyflwyno ei adroddiad?**

**C13. Beth fyddai pwrpas unrhyw adroddiad o'r fath ac a ddylai'r Llywodraeth fod o dan ddyletswydd i ymateb?**

**C14. Ydych chi'n credu y dylai'r Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol fod â rhan mewn gweithio gyda'r rhai mewn profedigaeth lle mae pryderon wedi'u codi ynghylch y canlyniad i ymchwiliad yn y gorffennol? Os ydych, pa fath o rôl y dylai honno fod?**

**C15. Ydych chi'n credu y dylai'r Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol fod â rhan mewn sefydlu ymchwiliad pellach? Os ydych, pa fath o rôl y dylai honno fod?**

**C16. Sut y dylai'r Llywodraeth sicrhau bod modd darparu rôl yr Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol bob amser pryd bynnag a lle bynnag y mae ei hangen?**

**C17. Beth fyddai'r manteision ac anfanteision o gael un Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol gyda dirprwyon?**

**C18. Beth fyddai'r manteision ac anfanteision o gael cnewyllyn o Eiriolwyr Cyhoeddus Annibynnol?**

**C19. Ar ôl ystyried popeth rydych wedi'i ddarllen yn y ddogfen ymgynghori hon, pa sgiliau, profiad neu gymwysterau penodol sydd eu hangen ar yr Eiriolwr Cyhoeddus Annibynnol yn eich barn chi?**

**C20. Beth yn eich barn chi fydd yr effeithiau ar bobl â nodweddion gwarchoddedig o'r cynigion sydd yn y papur ymgynghori hwn?**

**C21. Ydych chi'n credu bod yr effeithiau hyn yn dderbyniol?**

Diolch i chi am gymryd rhan yn yr ymgynghoriad hwn.

## Atodiad D – Amdanoch chi

Llenwch yr adran hon i ddarparu gwybodaeth amdanoch chi

<b>Enw llawn</b>	
<b>Teitl swydd</b> neu ym mha gymhwyster rydych yn ymateb i'r ymgynghoriad hwn (e.e. aelod o'r cyhoedd etc.)	
<b>Dyddiad</b>	
<b>Enw'r cwmni/sefydliad</b> (os yw'n berthnasol):	
<b>Cyfeiriad</b>	
<b>Cod post</b>	
Os ydych yn dymuno i ni gydnabod derbyn eich ymateb, ticiwch y blwch hwn	<input type="checkbox"/> (ticiwch y blwch)
I ba gyfeiriad y dylid anfon y gydnabyddiaeth, os yw'n wahanol i'r uchod	

**Os ydych yn cynrychioli grŵp**, nodwch enw'r grŵp a rhowch grynodedb o'r bobl neu sefydliadau rydych yn eu cynrychioli.

---

---

---

---



CCS0918471890

978-1-5286-0797-1